



Gofal Cymdeithasol **Cymru**
Social Care **Wales**

Ymarferydd Gwasanaethau Cymdeithasol

Deall damcaniaethau a modelau a'u
perthynas ag ymarfer sy'n
canolbwytio ar yr unigolyn/plentyn a
dulliau sy'n seiliedig ar hawliau

Social Services Practitioner

Understand theories and models and their
relationship to person/child centred practice
and rights based approaches



Health and
Llywodraeth Cymru
Sponsored by
Welsh Government



Mae'r adnodd hwn wedi'i ddatblygu mewn partneriaeth â'r Consortiwm Ymarferwyr Gwasanaethau Cymdeithasol (SSP) ar ran Gofal Cymdeithasol Cymru. Mae'r consortiwm yn cynnwys y partneriaid canlynol:
This resource has been developed in partnership by the Social Services Practitioner (SSP) Consortium on behalf of Social Care Wales. The consortium is made up of the following partners:



Gofal Cymdeithasol Cymru a'i gynghorwyr penodedig sy'n berchen ar hawlfraint y deunyddiau hyn. Gall darparwyr dysgu, awdurdodau lleol a darparwyr gwasanaethau gofal yng Nghymru gopio, atgynhyrchu, dosbarthu neu drefnu bod y Rhaglen Ddysgu Ymarferwyr Gwasanaethau Cymdeithasol (SSP) ar gael fel arall i unrhyw drydydd parti arall ar sail ddielw yn unig. Rhaid i unrhyw bartiōn eraill sy'n dymuno copio, atgynhyrchu, dosbarthu neu fel arall wneud y Rhaglen Ymarferwyr Gwasanaethau Cymdeithasol (SSP) ar gael i unrhyw drydydd parti arall geisio caniatâd ysgrifenedig Gofal Cymdeithasol Cymru ymlaen llaw.

The copyright to these materials rests with Social Care Wales and its appointed advisers. The Social Services Practitioner (SSP) Programme of learning may be copied, reproduced, distributed or otherwise made available to any other third party by learning providers, local authorities and care service providers in Wales on a not-for-profit basis only. Any other parties that wish to copy, reproduce, distribute or otherwise make the Social Services Practitioner (SSP) Programme available to any other third party must seek the prior written consent of Social Care Wales.



Gofal Cymdeithasol **Cymru**
Social Care Wales

www.gofalcymdeithasol.cymru
www.socialcare.wales



Sgiliau Astudio / Study Skills



Cyfeirnodi / Referencing



Darllen / Reading



Ysgrifenu / Writing



Myfyrdod Beirniadol /
Critical Reflection



Cyfathrebiad /
Communication



Gwaith Grŵp / Group Work



Cyflwyniad / Presentation



Ymchwil / Research



Sgiliau rhyngbersonol /
Interpersonal Skills



Gofal Cymdeithasol Cymru
Social Care Wales

www.gofalcymdeithasol.cymru
www.socialcare.wales



Bwrdd yr
Cymdeithasol
Cymreig
Welsh Governmen

Sgiliau Astudio Cudd / Hidden Study Skills

Peidiwch ag anghofio bod amrywiaeth o sgiliau wedi'u gwreiddio, gan gynnwys...

Trefnadaeth

Cadw amser

Cynllunio

Cymryd nodyn

Cynllunio Traethawd

Gwrandoedd

Datrys problemau

Penderfyniadau

Cwestiynu

Siarad yn effeithiol

Cyfathrebu llafar

Efallai y bydd rhai o'r rhain yn rhan o'ch sgiliau
rhyngbersonol hefyd.

Don't forget there are a range of skills embedded including...

Organisation

Time keeping

Planning

Note taking

Essay planning

Listening

Problem solving

Decision making

Questioning

Effective speaking

Verbal communication

Some of these may form part of your Interpersonal Skills too.



Gofal Cymdeithasol Cymru
Social Care Wales

www.gofalcymdeithasol.cymru
www.socialcare.wales



Nod i
Gwerddoniant
Gwerdd
Wales

Mae'r adran hon yn edrych ar pam efallai na fydd datblygiad yn dilyn y patrwm disgwyliedig (Ffactorau Mewnol ac Allanol)

This section looks at why development may not follow the expected pattern (Internal & External Factors)



Gofal Cymdeithasol Cymru
Social Care Wales

www.gofalcymdeithasol.cymru
www.socialcare.wales



Nodir gan
Llywodraeth Cymru
Sponsored by
Welsh Government

Facilitator notes

Welsh

Sleid yn ymwneud ag AC 2.6: Pam efallai na fydd datblygiad yn dilyn y patrwm disgwyliedig

English

Slide relates to AC 2.6: Why development may not follow the expected pattern

**Meddyliwch yn
gyflym! Pa ffactorau
mewnol ydych chi'n
meddwl sy'n effeithio
ar ddatblygiad dynol?**

**Quick think! What
internal factors do you
think affect human
development?**



Gofal Cymdeithasol Cymru
Social Care Wales

www.gofalcymdeithasol.cymru
www.socialcare.wales



Facilitator notes

Welsh

Sleid yn ymwneud ag AC 2.6: Pam efallai na fydd datblygiad yn dilyn y patrwm disgwyliedig

English

Slide relates to AC 2.6: Why development may not follow the expected pattern

Etifeddiaeth

- Trosglwyddo nodweddion corfforol o rieni i blant trwy eu genynnau.
- Mae'n dylanwadu ar bob agwedd, megis taldra, pwysau, lliw llygaid, tueddfryd, deallusrwydd, yn ogystal ag afiechydon a chyflyrau.
- Annormaleddau genetig yw cyflyrau a achosir gan newidiadau i'r genynnau neu'r cromosomau. Mae'r rhain yn cynnwys anhwylderau fel ffibrosis systig, clefyd y cryman-gelloedd, a chlefyd Tay-Sachs.
- Mae annormaleddau cromosomaidd yn digwydd pan fo cromosomau neu ddarnau o gromosomau ar goll neu fod rhai ychwanegol yn bresennol. Mae syndrom Down yn enghraifft o anhwylder genetig a achosir gan annormaledd cromosom.

Heredity

- Is the transmission of physical characteristics from parents to children through their genes.
- It influences all aspects, such as height, weight, eye colour, aptitudes, intelligence, as well as diseases and conditions.
- Genetic abnormalities are conditions caused by changes to the genes or chromosomes. These include disorders such as cystic fibrosis, sickle cell disease, and Tay-Sachs disease.
- Chromosomal abnormalities occur when there are missing or extra chromosomes or pieces of chromosomes. Down syndrome is an example of a genetic disorder caused by a chromosome abnormality.



www.gofalcymdeithasol.cymru
www.socialcare.wales



Facilitator notes

Welsh

Sleid yn ymwneud ag AC 2.6: Pam efallai na fydd datblygiad yn dilyn y patrwm disgwyliedig

Ffynhonnell: <https://www.nhs.uk/conditions/tay-sachs-disease/>

Mae clefyd Tay-Sachs yn gyflwr etifeddol prin sy'n effeithio'n bennaf ar fabanod a phlant ifanc. Mae'n atal y nerfau rhag gweithio'n iawn ac fel arfer mae'n angheuol.

Mae symptomau clefyd Tay-Sachs fel arfer yn dechrau pan fydd plentyn rhwng 3 a 6 mis oed.

Mae'r prif symptomau yn cynnwys:

cael eu synnu'n ormodol gan synau a symudiadau

bod yn araf iawn i gyrraedd cerrig milltir fel dysgu cropian, a cholli sgiliau maen nhw eisoes wedi eu dysgu

bod yn llipa a gwan, sy'n parhau i waethyg nes nad ydynt yn gallu symud (parlys)
anhawster llyncu

colli golwg neu glyw

anystwythder cyhyrau

trawiadau (ffitiau)

Mae'r cyflwr fel arfer yn angheuol tua 3 i 5 oed, yn aml oherwydd cymhlethdodau haint yr ysgyfaint (niwmonia).

Mae mathau mwy prin o glefyd Tay-Sachs yn dechrau'n hwyrach yn ystod plentyndod (clefyd Tay-Sachs ifanc) neu pan fyddant yn oedolion ifanc (clefyd Tay-Sachs sy'n

dechrau'n hwyr). Nid yw'r math sy'n dechrau'n hwyr bob amser yn lleihau disgwyliad oes.

English

Slide relates to AC 2.6: Why development may not follow the expected pattern

Source: <https://www.nhs.uk/conditions/tay-sachs-disease/>

Tay-Sachs disease is a rare inherited condition that mainly affects babies and young children. It stops the nerves working properly and is usually fatal.

Symptoms of Tay-Sachs disease usually start when a child is 3 to 6 months old.

The main symptoms include:

being overly startled by noises and movement

being very slow to reach milestones like learning to crawl, and losing skills they have already learnt

floppiness and weakness, which keeps getting worse until they're unable to move (paralysis)

difficulty swallowing

loss of vision or hearing

muscle stiffness

seizures (fits)

The condition is usually fatal by around 3 to 5 years of age, often due to complications of a lung infection (pneumonia).

Rarer types of Tay-Sachs disease start later in childhood (juvenile Tay-Sachs disease) or early adulthood (late-onset Tay-Sachs disease). The late-onset type doesn't always shorten life expectancy.

Rhyw a Rhywedd: pam nad ydyn nhw yr un peth

- Cysniad biolegol yw rhyw - anatomeg system atgenhedlu unigolyn a nodweddion rhyw eilaidd.
- Mae rhywedd yn strwythur cymdeithasol sy'n nodi'r rolau a ragnodwyd yn gymdeithasol ac yn ddiwylliannol y mae gwrywod a benywod i'w dilyn.
- Mewn rhai amgylchiadau, nid yw rhyw a neilltuwyd a rhywedd unigolyn yn gylon, a gall y person fod yn drawsryweddol.
- Gall disgwyliadau rhieni a chymdeithasol sy'n gysylltiedig â rhywedd effeithio ar ddatblygiad corfforol, emosiynol a seicolegol y plentyn.

Sex & Gender: why they are not the same thing

- Sex is a biological concept- the anatomy of an individual's reproductive system and secondary sex characteristics.
- Gender is a social construct specifying the socially and culturally prescribed roles that males and females are to follow.
- In some circumstances, an individual's assigned sex and gender do not align, and the person may be transgender.
- Parental and social expectations associated with gender can affect the child's physical, emotional and psychological development.



Gofal Cymdeithasol Cymru
Social Care Wales

www.gofalcymdeithasol.cymru
www.socialcare.wales



Facilitator notes

Welsh

Sleid yn ymwneud ag AC 2.6: Pam efallai na fydd datblygiad yn dilyn y patrwm disgwyliedig

Mae stereoteipio ar sail rhywedd yn gredoau sydd gan fodau dynol am y nodweddion sy'n gysylltiedig â bod yn wrywaidd neu'n fenywaidd. Gall disgwyliadau cymdeithasol a diwylliannol achosi dysfforia rhywedd, lle mae'r plentyn yn teimlo ei fod wedi'i eni i'r corff anghywir. Dylanwadir ar hyn gan dybiaethau nodwediadol am ryw, rhywedd a hunaniaeth. Mae disgwyliadau yn nodwediadol gysylltu eu hunain â'r lliw glas, gan gynnwys gwisgo dillad sy'n las, chwarae gyda cheir, gynnau tegan ac offer tegan, a gweld rôl y gwryw yn galed, gwydn ac yn gorfforol gryf. Gallant gael eu dylanwadu gan rolau gwrywaidd ystrydebol: adeiladwr, milwr, mecanig, pêl-droediwr neu chwaraewr rygbi. Mae merched fel arfer yn cael eu cysylltu â'r lliw pinc, i wisgo dillad sy'n binc, i chwarae gyda doliau, pramiau, a theganau coginio. Gallant gael eu dylanwadu gan ymddygiadau ac agweddu sy'n ystyried merched yn sensitif, yn addasol, yn famol, yn feddal ac yn addfwyn. Gallant gael eu dylanwadu i ystyried mai rôl menywod yw darparu ar gyfer y gwryw: i goginio, glanhau, gwneud swper a chyflawni rolau fel nrys, derbynnydd neu fam nad yw'n gweithio.

English

Slide relates to AC 2.6: Why development may not follow the expected pattern

Gender stereotyping are beliefs that humans hold about the characteristics associated with being male or female. Societal and cultural expectations can cause gender dysphoria, where the child feels that they have been born into the wrong body. This is influenced by typical assumptions about sex, gender and identity. Boys are typically expected to associate themselves with the colour blue, including wearing clothes that are blue, play with cars, toy guns and toy tools, and see the role of the male as tough, resilient and physically strong. They may be influenced by stereotypical male roles: builder, soldier, mechanic, footballer or rugby player. Girls are typically aligned with the colour pink, to wear clothes that are pink, to play with dolls, prams, and cooking toys. They might be influenced by behaviours and attitudes that regard women as sensitive, accommodating, maternal, soft and gentle. They may be influenced to regard the role of women as to provide for the male: to cook, clean, make dinner and occupy roles such as a nurse, receptionist or non-working mother.

Rhywedd a datblygiad

- Mae llawer o bobl ifanc yn byw mewn amgylcheddau rhyweddol ac yn cael eu heffeithio gan stereoteipiau gwrywaidd neu fenywaidd traddodiadol o ddydd i ddydd.
- Gall rolau rhywedd mewn cymdeithas greu disgwyliadau penodol, ac yn aml gall pwysau stereoteipiau rhywedd achosi i unigolion deimlo'n ynysig, yn ansicr, yn annerbyniol, yn ofidus, yn anhapus a hyd yn oed deimlo'r angen i hunan-niweidio.
- Gall hunaniaeth o ran rhywedd a derbyniad o rhywedd arwain at drallod emosiynol a seicolegol. Mae'n gyffredin iawn i unigolion ddatblygu cyflyrau iechyd meddwl fel gorbryder, iselder neu'r ddaу.

Gender & development

- Many young people are living in gendered environments and are affected by traditional male or female stereotypes day in day out.
- Gender roles in society can create certain expectations, and the pressure of gender stereotypes can often cause individuals to feel isolated, insecure, unaccepted, distressed, unhappy and even feel the need to self-harm.
- Gender identity and acceptance can lead to emotional and psychological distress. It is very common for individuals to develop mental health conditions such as anxiety, depression or both.



Gofal Cymdeithasol Cymru
Social Care Wales

www.gofalcymdeithasol.cymru
www.socialcare.wales



Welsh Government
Cymdeithas Cymru
Sponsored by
Welsh Government

Facilitator notes

Welsh

Sleid yn ymwneud ag AC 2.6: Pam efallai na fydd datblygiad yn dilyn y patrwm disgwyliedig

Ffynhonnell: <https://www.nhs.uk/live-well/healthy-body/trans-teenager/>

English

Slide relates to AC 2.6: Why development may not follow the expected pattern

Source: <https://www.nhs.uk/live-well/healthy-body/trans-teenager/>

Anabledd ac anawsterau dysgu.

Anableddau corfforol a dysgu: efallai na fydd plant ag anabledd dysgu yn gallu cynnal eu sylw a'u ffocws am gyfnod estynedig o amser. Gall anableddau fod yn gysylltiedig ag anhwylderau genetig neu gallant fod oherwydd diet gwael a statws iechyd cyffredinol. Gall plentyn neu berson ifanc ag anabledd corfforol gynnwys problemau gyda sgiliau gweithredol, bras a sgiliau echddygol manwl. Gallant ddioddef nam ar y clyw neu'r golwg a allai effeithio ar eu gallu i gerdded, chwarae neu ddysgu. Gall y problemau hyn effeithio ar eu hunanhyder yn ogystal â herio sgiliau cymdeithasol.

Disability & learning difficulties.

Physical and learning disabilities: children with a learning disability may not be able to hold their attention and focus for an extended period of time. Disabilities can be linked to genetic disorders or can be due to poor diet and general health status. A child or a young person with a physical disability may include problems with functional, gross and fine motor skills. They may suffer a hearing or visual impairment which may impact on their ability to walk, play or learn. These problems may affect their self-confidence as well as challenge social skills.



Gofal Cymdeithasol Cymru
Social Care Wales

www.gofalcymdeithasol.cymru
www.socialcare.wales



Nodir gan
Llywodraeth Cymru
Sponsored by
Welsh Government

Facilitator notes

Welsh

Sleid yn ymwneud ag AC 2.6: Pam efallai na fydd datblygiad yn dilyn y patrwm disgwyliedig

Ymarfer: gellir gofyn i'r grŵp gynnig mathau eraill o anableddau a/neu anableddau dysgu sy'n effeithio ar ddatblygiad. Gallai enghreifftiau gynnwys: dyslecsia, dyspracsia - anhwylder cyffredin sy'n effeithio ar symud a chydsymud, dyscalculia - gall achosi i bobl gael trfferth gyda mathemateg, ADHD (Anhwylder Difyg Canolbwytio a Gorfywiogrwydd), anhwylder genetig prin sy'n effeithio ar ddatblygiad yr ymennydd, gan arwain at anabledd meddyliol a chorfforol difrifol.

English

Slide relates to AC 2.6: Why development may not follow the expected pattern
Exercise: the group can be asked to propose other forms of disabilities and/or learning disabilities that affect development. Examples might include: dyslexia, dyspraxia- a common disorder that affects movement and co-ordination., dyscalculia- can cause people to struggle with maths, ADHD (Attention Deficit Hyperactivity Disorder), a rare genetic disorder that affects brain development, resulting in severe mental and physical disability.

Ffactorau negyddol sy'n effeithio ar ddatblygiad dynol: tlodi.

- Tlodi absoliwt (tlodi ffisiolegol): dim digon o fwyd, dŵr, cysgod neu gynheswydd.
- Tlodi cymharol (tlodi cymdeithasol): ychydig o arian sydd ar gyfer pryniannau diddorol a ffyrdd cyffrous o fyw.
- Mae gan deuluoedd sy'n dibynnu ar fudd-daliadau ddewisiadau bywyd cyfyngedig. Efallai na fydd y dillad diweddaraf, ceir diogel dibynadwy, yr offer electronig diweddaraf, gwyliau ac yn y blaen, yn ddewisiadau i bobl ar incwm isel. Mae'n rhaid i deuluoedd heb lawer o arian gyfyngu ar yr hyn y gallant ei brynu pan fyddant yn ymweld ag archfarchnad neu ganolfan siopa.

Negative factors that affect human development: poverty.

- Absolute poverty (physiological poverty): not having enough food, water, shelter or warmth.
- Relative poverty (social poverty): there is little money for interesting purchases and exciting lifestyles.
- Families who depend on benefits have limited life choices. The latest clothes, safe reliable cars, the latest electronic equipment, holidays and so on, may not be choices for people on low incomes. Families with little money have to restrict what they can buy when they visit a supermarket or shopping centre.



Gofal Cymdeithasol Cymru
Social Care Wales

www.gofalcymdeithasol.cymru
www.socialcare.wales



Mae'r gwas
Llywodraeth Cymru
Sponsored by
Welsh Government

Facilitator notes

Welsh

Sleid yn ymwneud ag AC 2.6: Pam efallai na fydd datblygiad yn dilyn y patrwm disgwyliedig

Ffynhonnell: Sefydliad Joseph Rowntree. <https://www.jrf.org.uk/our-work/what-is-poverty>

- Mae twf a datblygiad yn dibynnu ar lawer o ffactorau gyda rhai yn effeithio ar rai plant yn fwy nag eraill. Gall yr effaith fod yn gadarnhaol yn ogystal â negyddol.
- Mae grwpiau allweddol o bobl sy'n gorfol byw ar ychydig iawn o arian yn cynnwys teuluoedd un rhiant, pobl ddi-waith, yr henoed, pobl sy'n sâl neu'n anabl, enillwyr sengl a chyplau di-sgil.
- Mae plant sy'n byw mewn tlodi mewn mwy o berygl o ddiioddef diffyg maeth neu o fod dros bwysau. Mae egni maethol yn hanfodol ar gyfer datblygiad yr ymennydd a chorfforol.
- Mae plant sydd bob dydd yn wynebu anniogelwch, ansicrwydd, a phenderfyniadau amhosibl am arian, yn golygu eu bod yn wynebu ymyleiddio – a hyd yn oed gwahaniaethu – oherwydd eu hamgylchiadau ariannol. Gall

y straen cyson y mae'n ei achosi arwain at broblemau sy'n amddifadu pobl o'r cyfle i chwarae rhan lawn mewn cymdeithas.


English

Slide relates to AC 2.6: Why development may not follow the expected pattern

Source: Joseph Rowntree Foundation. <https://www.jrf.org.uk/our-work/what-is-poverty>

- Growth and development are dependent on many factors with some affecting some children more than others. The impact can be positive as well as negative.
-
- Key groups of people who have to live on very little money include one parent families, people who are unemployed, elderly people, people who are sick or disabled, single earners and unskilled couples.
- Children who live in poverty stand a higher risk of being malnourished or overweight. Nutritional energy is vital for brain and physical development.
- Children who every day face insecurity, uncertainty, and impossible decisions about money, means that they face marginalisation – and even discrimination – because of their financial circumstances. The constant stress it causes can lead to problems that deprive people of the chance to play a full part in society.

Effeithiau tlodi ar ddatblygiad dynol



Facilitator notes

Welsh

Sleid yn ymwneud ag AC 2.6: Pam efallai na fydd datblygiad yn dilyn y patrwm disgwyliedig
Dyma rai o ganlyniadau tlodi:

problemau iechyd

problemau tai

bod yn ddioddefwr neu'n gyflawnwr troseidd

problemau cyffuriau neu alcohol

cyflawniad addysgol is

tlodi ei hun – mae tlodi yn ystod plentyndod yn cynyddu'r risg o ddiweithdra a chyflogau isel
pan yn oedolion, a llai o gynillion yn ddiweddarach mewn bywyd

digartrefedd

dod yn rhieni yn ystod yr arddegau

problemau perthnasoedd a theuluol

effeithiau biolegol – gall tlodi yn gynnar ym mywyd plentyn gael effaith niweidiol ar
ddatblygiad ei ymennyyd

English

Slide relates to AC 2.6: Why development may not follow the expected pattern

Some of the consequences of poverty are:

health problems

housing problems

being a victim or perpetrator of crime
drug or alcohol problems
lower educational achievement
poverty itself – poverty in childhood increases the risk of unemployment and low pay in adulthood, and lower savings in later life
homelessness
teenage parenthood
relationship and family problems
biological effects – poverty early in a child's life can have a harmful effect on their brain development

Ffatorau cymdeithasol ac emosiynol gydol oes

- Gall tai o ansawdd gwael arwain at iechyd meddwl gwael a thrais domestig. Gall plant deimlo'n orbryderus a gall hefyd arwain at ynysu cymdeithasol gan fod unigolion yn teimlo na allant wahodd eraill i'w cartref.
- Gall amodau tai gwael arwain at gyfleoedd bywyd gwael i blant oherwydd diffyg cyfleusterau yn yr ardal fel ysgolion da, mannau cymdeithasol a mynediad at ofal iechyd da.
- Efallai na fydd plant byth yn gwybod i ble y byddant yn cael eu symud nesaf a gall hyn achosi pryder, iselder ysbyrd a phroblemau ymddygiad. Gallant hefyd brofi gorfywiogrwydd, ymddygiad ymosodol, gwlychu'r gwely a baeddu.

Social and emotional factors across the lifespan

- Poor quality housing can lead to poor mental health and domestic violence. Children can feel anxious, and it can also lead to social isolation as individuals feel unable to invite others into their home.
- Poor housing conditions can lead to poor life chances for children due to lack of facilities in the area such as good schools, social spaces and access to good healthcare.
- Children may never know where they will be moved to next, and this can cause anxiety, depression, and behavioural problems. They may also experience hyperactivity, aggression, bedwetting and soiling.

Facilitator notes

Welsh

Sleid yn ymwneud ag AC 2.6: Pam efallai na fydd datblygiad yn dilyn y patrwm disgwyliedig

- Mae plant sy'n byw mewn llety dros dro cyfyng yn cael eu heffeithio gan:
 - cwsg aflonydd
 - diet gwael
 - damweiniau
 - clefyd heintus.
- Gall eu haddysg ddioddef gan nad oes ganddynt y gofod a'r preifatrwydd sydd eu hangen arnynt i wneud gwaith cartref a chwarae.
- Mae plant sy'n profi digartrefedd neu dai gwael yn ystod eu blynnyddoedd ffurfiannol yn aml yn treulio gweddill eu hoes yn cael trafferth dal i fyny. Mae ymchwil yn dangos bod y rhai sy'n dioddef tai gwael yn wynebu risg uwch o ddigartrefedd pan fyddant yn oedolion.
-

Cyfeiriad: Dysgu lechyd a Gofal Cymru:

http://resource.download.wjec.co.uk.s3.amazonaws.com/vtc/2018-19/HSC18-19_1-2/_multi-lang/factors-affecting-growth-development- and-well-being/4-environmental-factors.html

English

Slide relates to AC 2.6: Why development may not follow the expected pattern

- Children living in cramped temporary accommodation are affected by:
 - disturbed sleep
 - poor diet
 - accidents
 - infectious disease.
- Their education can suffer as they do not have the space and privacy they need to do homework and play.
- Children experiencing homelessness or poor housing during their formative years often spend the rest of their lives struggling to catch up.
Research shows that those who suffer bad housing have an increased risk of homelessness in adulthood.
-

Reference: Health & Care Learning Wales:


http://resource.download.wjec.co.uk.s3.amazonaws.com/vtc/2018-19/HSC18-19_1-2/_multi-lang/factors-affecting-growth-development-and-well-being/4-environmental-factors.html

Ffactorau cymdeithasol ac emosiynol gydol oes

Rhiant esgeulus – Nodweddir hyn gan ddiffyg sylw i anghenion plentyn. Mae'r mathau hyn o rieni yn absennol yn emosiynol ac yn hapus i adael i'r teledu neu dechnoleg warchod eu plant. Mae plant sy'n cael eu magu fel hyn yn ei chael hi'n anodd ffurio perthnasoedd llwyddiannus, gallant ddioddef gorbryder ac iselder oherwydd diffyg cefnogaeth teuluol ac maent mewn mwy o berygl o ddatblygu problemau ymddygiad pan yn oedolion.

Social and emotional factors across the lifespan

- Neglectful parent – This is characterised by a lack of attention to a child's needs. These type of parents are emotionally absent and are happy to let the TV or technology babysit their children. Children brought up in this way find it difficult to form successful relationships, they can suffer anxiety and depression due to lack of family support and are at greater risk of developing behavioural problems in their adult years.



www.gofalcymdeithasol.cymru
www.socialcare.wales



Facilitator notes

Welsh

Sleid yn ymwneud ag AC 2.6: Pam efallai na fydd datblygiad yn dilyn y patrwm disgwyliedig

Cyfeiriad: [\(Dysgu Iechyd a Gofal Cymru\).](http://resource.download.wjec.co.uk.s3.amazonaws.com/vtc/2018-19/HSC18-19_1-2/_multi-lang/factors-affecting-growth-development-and-well-being/2-social-and-emotional-factors.html)

English

Slide relates to AC 2.6: Why development may not follow the expected pattern

Reference: [\(Health & Care Learning Wales\).](http://resource.download.wjec.co.uk.s3.amazonaws.com/vtc/2018-19/HSC18-19_1-2/_multi-lang/factors-affecting-growth-development-and-well-being/2-social-and-emotional-factors.html)

Ffactorau cymdeithasol ac emosiynol gydol oes

- Rhiant maddeuol – Mae'r math hwn o rianta yn gariadus iawn ond ychydig iawn o ddisgyblaeth neu strwythur sydd ym mywyd y plentyn. Gallai plant sy'n cael eu magu yn y modd hwn, er eu bod yn sicr iawn gyda hunan-barch uchel, dueddu i fod ag ymdeimlad o hawl a gwneud penderfyniadau gwael oherwydd diffyg sgiliau datrys problemau neu wneud penderfyniadau.
- Rhiant awdurdodol – Mae'r math hwn o rianta yn gosod disgwyliadau uchel ar gyfer eu plant ond mewn amgylchedd cariadus a chefnogol. Rhoddir rhywfaint o annibyniaeth i'r plant o fewn fliniau clir. Mae plant sy'n cael eu magu fel hyn yn hunanhwyderus ac yn annibynnol. Gallant ffurio perthnasoedd cryf ac iach ac maent yn llai tebygol o gael eu heffeithio gan bwysau cyfoedion.

Social and emotional factors across the lifespan

- Indulgent parent – This type of parenting is very loving but there is very little discipline or structure in the child's life. Children brought up in this way, whilst very secure with high self-esteem, could tend to have a sense of entitlement and make poor decisions due to a lack of problem-solving or decision-making skills.
- Authoritative parent – This type of parenting sets high expectations for their children but in a loving and supportive environment. Children are given a degree of independence within clearly defined boundaries. Children brought up in this way are self-confident and independent. They are able to form strong, healthy relationships and are less likely to be affected by peer pressure.

Facilitator notes

Welsh

Sleid yn ymwneud ag AC 2.6: Pam efallai na fydd datblygiad yn dilyn y patrwm disgwyliedig

Cyfeiriad: http://resource.download.wjec.co.uk.s3.amazonaws.com/vtc/2018-19/HSC18-19_1-2/_multi-lang/factors-affecting-growth-development-and-well-being/2-social-and-emotional-factors.html
(Dysgu Iechyd a Gofal Cymru).

English

Slide relates to AC 2.6: Why development may not follow the expected pattern

Reference: http://resource.download.wjec.co.uk.s3.amazonaws.com/vtc/2018-19/HSC18-19_1-2/_multi-lang/factors-affecting-growth-development-and-well-being/2-social-and-emotional-factors.html
(Health & Care Learning Wales).

Ffactorau cymdeithasol ac emosiynol gydol oes

Rhiant awdurdodaidd - Mae'r math hwn o rianta hefyd yn gosod disgwyliadau uchel ar gyfer eu plant; fod bynnag, nid yw hyn mewn amgylchedd cariadus a meithringar. Ychydig iawn o ddewis, os o gwbl, a roddir i blant mewn penderfyniadau ac mae eu camgymeriadau yn dueddol o gael eu cosbi'n llym. Efallai y bydd plant sy'n cael eu magu yn y modd hwn yn tyfu i fyny i gysylltu uffud-dod a llwyddiant â chariad, gallent fod yn ymosodol, bod â hunan-barch isel a bod yn swil ac yn nerfus o amgylch eraill.

Social and emotional factors across the lifespan

Authoritarian parent – This type of parenting also sets high expectations for their children; however, this isn't within a loving and nurturing environment. Children are given little or no choice in decisions and their mistakes tend to be punished harshly. Children brought up in this way may grow up to associate obedience and success with love, they could be aggressive, have low self-esteem and be shy and nervous around others.

Facilitator notes

Welsh

Sleid yn ymwneud ag AC 2.6: Pam efallai na fydd datblygiad yn dilyn y patrwm disgwyliedig

Cyfeiriad: http://resource.download.wjec.co.uk.s3.amazonaws.com/vtc/2018-19/HSC18-19_1-2/_multi-lang/factors-affecting-growth-development-and-well-being/2-social-and-emotional-factors.html
(Dysgu Iechyd a Gofal Cymru).

English

Slide relates to AC 2.6: Why development may not follow the expected pattern
Reference: http://resource.download.wjec.co.uk.s3.amazonaws.com/vtc/2018-19/HSC18-19_1-2/_multi-lang/factors-affecting-growth-development-and-well-being/2-social-and-emotional-factors.html
(Health & Care Learning Wales).

Ffactorau cymdeithasol ac emosiynol gydol oes

- Brodyr a chwior ydd – Pan fydd brodyr a chwior ydd yn ifanc, mae eu math o berthynas yn amrywio yn dibynnu ar oedran a rhyw. Pan mae'n nhw'n ifanc mae'n nhw'n dueddol o ymladd mewn ffyrdd corfforol ond wrth iddyn nhw fynd yn hŷn bydd hyn yn datblygu'n ddadleuon llafar. Mae brodyr a chwior ydd sy'n oedolion yn dueddol o fod â pherthnasoedd sy'n perthyn i un o'r pum categori canlynol:
 - hynod ymroddgar, gan osod perthynas brawd neu chwaer uwchlaw popeth arall
 - ffrindiau agos a gofalgar, ond yn rhoi gwerth uwch ar briodas a pherthnasoedd rhiant/plentyn
 - teyrngarwch yn seiliedig ar hanes teuluol cyffredin, cadw cysylltiad rheolaidd, cymryd rhan mewn cynulliadau teuluol ac sydd yno ar adegau o argyfwng
 - ddim wir yn teimlo'n gysylltiedig a chyswilt anaml neu ddim cyswilt
 - gelynfaeth yn seiliedig ar chwerwder a dicter.

Social and emotional factors across the lifespan

- Siblings – When siblings are young, their type of relationship varies depending on age and gender. When they are young they tend to fight in physical ways but as they grow older this will develop into verbal arguments. Adult siblings tend to have relationships that fall into one of the five following categories:
 - extremely devoted, placing sibling relationship above all others
 - close and caring friends, but place a higher value on marriage and parent/child relationships
 - loyalty based on common family history, maintain regular contact, participate in family gatherings and are there in times of crisis
 - don't really feel connected and have infrequent to no contact
 - hostility based on resentment and anger.

Facilitator notes

Welsh

Sleid yn ymwneud ag AC 2.6: Pam efallai na fydd datblygiad yn dilyn y patrwm disgwyliedig

Cyfeiriad: http://resource.download.wjec.co.uk.s3.amazonaws.com/vtc/2018-19/HSC18-19_1-2/_multi-lang/factors-affecting-growth-development-and-well-being/2-social-and-emotional-factors.html
(Dysgu Iechyd a Gofal Cymru).

English

Slide relates to AC 2.6: Why development may not follow the expected pattern


Reference: http://resource.download.wjec.co.uk.s3.amazonaws.com/vtc/2018-19/HSC18-19_1-2/_multi-lang/factors-affecting-growth-development-and-well-being/2-social-and-emotional-factors.html
(Health & Care Learning Wales).

Ffatorau cymdeithasol ac emosiynol gydol oes

Rhiant a phlentyn – Mae angen i berthynas rhwng rhiant a phlentyn fod yn gyson ac yn sensitif er mwyn osgoi unrhyw effaith emosiynol negyddol. Os yw plant yn teimlo y gallant ddibynnu ar riant am gysur pan fyddant yn ofidus byddant yn tyfu i fyny gan deimlo eu bod yn deilwng o gariad a gofal. Mae plant sydd â chwlwm emosiynol cryf â'u rhieni yn llai tebygol o gael eu dylanwadu gan bwysau cyfoedion yn eu harddegau

Social and emotional factors across the lifespan

- Parent and child – A relationship between parent and child needs to be consistent and sensitive in order to avoid any negative emotional impact. If children feel that they can rely on a parent for comfort when they are distressed, they will grow up feeling that they are worthy of love and care. Children with a strong emotional bond to their parents are less likely to be influenced by peer pressure in their teens



www.gofalcymdeithasol.cymru
www.socialcare.wales



Facilitator notes

Welsh

Sleid yn ymwneud ag AC 2.6: Pam efallai na fydd datblygiad yn dilyn y patrwm disgwyliedig

Cyfeiriad: http://resource.download.wjec.co.uk.s3.amazonaws.com/vtc/2018-19/HSC18-19_1-2/_multi-lang/factors-affecting-growth-development-and-well-being/2-social-and-emotional-factors.html
(Dysgu Iechyd a Gofal Cymru).

English

Slide relates to AC 2.6: Why development may not follow the expected pattern
Reference: http://resource.download.wjec.co.uk.s3.amazonaws.com/vtc/2018-19/HSC18-19_1-2/_multi-lang/factors-affecting-growth-development-and-well-being/2-social-and-emotional-factors.html

(Health & Care Learning Wales).

Ffatorau cymdeithasol ac emosiynol gydol oes

Cyfeillgarwch – mae'r rhain yn bwysig am nifer o resymau a gallant hybu iechyd a llesiant drwy gefnogaeth, hybu hunan-barch, cadw unigolion yn actif a helpu i gael agwedd gadarnhaol. Fodd bynnag, mae cyfeillgarwch camweithredol yn cael effaith negyddol ar iechyd a llesiant. Gall ffrindiau roi pwysau ar unigolion i wneud pethau sy'n ddrwg iddynt, a gallant niweidio eu hunan-barch trwy feirniadaeth gyson.

Social and emotional factors across the lifespan

- Friendships – these are important for a number of reasons and can promote health and well-being through support, boosting self-esteem, keeping individuals active and helping to have a positive approach. However, dysfunctional friendships have a negative impact on health and well-being. Friends can pressure individuals into doing things that are bad for them and can damage their self-esteem through constant criticism.

Facilitator notes

Welsh

Sleid yn ymwneud ag AC 2.6: Pam efallai na fydd datblygiad yn dilyn y patrwm disgwyliedig

Cyfeiriad: http://resource.download.wjec.co.uk.s3.amazonaws.com/vtc/2018-19/HSC18-19_1-2/_multi-lang/factors-affecting-growth-development-and-well-being/2-social-and-emotional-factors.html

(Dysgu iechyd a Gofal Cymru).

English

Slide relates to AC 2.6: Why development may not follow the expected pattern

Reference: http://resource.download.wjec.co.uk.s3.amazonaws.com/vtc/2018-19/HSC18-19_1-2/_multi-lang/factors-affecting-growth-development-and-well-being/2-social-and-emotional-factors.html

(Health & Care Learning Wales).

Ffatorau cymdeithasol ac emosiynol gydol oes

Perthnasoedd agos a rhywiol - Gall y math hwn o berthynas gael effaith gadarnhaol neu negyddol ar iechyd a llesiant. Mae'n bosibl y bydd unigolion yn dueddol o fagu pwysau a bod yn llai gofalus o'u hymddangosiad unwaith y byddant mewn perthynas agos gyfforddus, ond gall y gwrthwyneb ddigwydd, gyda chyplau'n cymell ei gilydd i gadw'n heini a bwyta'n iach. Gall perthnasoedd rhywiol iach leihau lefelau straen, ond os yw un partner yn teimlo dan bwysau i gael perthynas rywiol yna gall hyn achosi straen a phryder.

Social and emotional factors across the lifespan

- Intimate and sexual relationships – This type of relationship can have a positive or negative effect on health and well-being. Individuals may tend to put on weight and take less care of their appearance once they are in a comfortable intimate relationship, however the opposite can happen, with couples motivating each other to keep fit and eat healthily. Healthy sexual relationships can reduce stress levels, but if one partner feels pressured into a sexual relationship then this can cause stress and anxiety.

Facilitator notes

Welsh

Sleid yn ymwneud ag AC 2.6: Pam efallai na fydd datblygiad yn dilyn y patrwm disgwyliedig

Cyfeiriad: http://resource.download.wjec.co.uk.s3.amazonaws.com/vtc/2018-19/HSC18-19_1-2/_multi-lang/factors-affecting-growth-development-and-well-being/2-social-and-emotional-factors.html
(Dysgu Iechyd a Gofal Cymru).

English

Slide relates to AC 2.6: Why development may not follow the expected pattern

Reference: http://resource.download.wjec.co.uk.s3.amazonaws.com/vtc/2018-19/HSC18-19_1-2/_multi-lang/factors-affecting-growth-development-and-well-being/2-social-and-emotional-factors.html
(Health & Care Learning Wales).

Ffatorau cymdeithasol ac emosiynol gydol oes

- Teuluoedd o'r un rhyw – Ychydig o wahaniaethau sydd i'w gweld rhwng teuluoedd o'r un rhyw a theuluoedd niwclear (mam, tad a phlant). Cyn belled â bod y berthynas rhwng y ddau riant yn iach a'u bod yn caru ac yn cefnogi eu plant yna bydd y plant yn tyfu i fyny yn teimlo'n ddiogel gyda synnwyr da o hunanwerth.
- Teuluoedd niwclear - Cyn belled â bod y berthynas rhwng y ddau riant yn iach a'u bod yn caru ac yn cefnogi eu plant yna bydd y plant yn tyfu i fyny yn teimlo'n ddiogel gyda synnwyr da o hunanwerth.
- Teuluoedd maeth – Mae plant mewn gofal maeth yn aml wedi cael eu camdrin neu eu hesgeuluso cyn cyrraedd eu rhieni maeth. Oherwydd hyn efallai y bydd eu sgliliau cymdeithasol ar ei hól hi. Efallai y byddant yn datblygu materion emosiynol, ymddiriedaeth, ac yn ei chael hi'n anodd ffurio perthnasoedd agos.

Social and emotional factors across the lifespan

- Same sex families – Few differences can be found between same sex families and nuclear families (a mum, dad and children). As long as the relationship between the two parents is healthy and they love and support their children then the children will grow up feeling secure with a good sense of self-worth.
- Nuclear families - As long as the relationship between the two parents is healthy and they love and support their children then the children will grow up feeling secure with a good sense of self-worth.
- Foster families – Children in foster care have often been subject to abuse or neglect before reaching their foster parents. Due to this their social skills may be delayed. They may develop emotional, trust issues, and find it hard to form close relationships.



Gofal Cymdeithasol Cymru
Social Care Wales

www.gofalcymdeithasol.cymru
www.socialcare.wales



Facilitator notes

Welsh

Sleid yn ymwneud ag AC 2.6: Pam efallai na fydd datblygiad yn dilyn y patrwm disgwyliedig

Cyfeiriad: http://resource.download.wjec.co.uk.s3.amazonaws.com/vtc/2018-19/HSC18-19_1-2/_multi-lang/factors-affecting-growth-development-and-well-being/2-social-and-emotional-factors.html
(Dysgu Iechyd a Gofal Cymru).

Hefyd:

- Llys-deuluoedd – Mae'r math hwn o deulu yn dod yn fwyfwy cyffredin. Gall ddod â chanlyniadau cadarnhaol a negyddol. Gall plant fwynhau bod yn rhan o deulu mwy, cael mwy o blant i chwarae â nhw a gweld eu rhiant yn hapus. Fodd bynnag, efallai y byddant yn dod â materion heb eu datrys a digio'r teulu newydd, gan arwain at broblemau ymddygiad. Mae'n bosibl y bydd rhieni'n teimlo rhyddhad bod ganddynt unigolyn i rannu'r cyfrifoldebau o ddydd i ddydd ag ef, ond gallant ddioddef o straen a phryder wrth geisio magu plant nad ydynt yn perthyn iddynt.

- Teulu heb blant – gall hwn fod yn ddewis ffordd o fyw a gall ddod ag ymdeimlad mawr o lesiant, gan fod yr oedolion yn dewis treulio eu hamser a'u harian yn canolbwytio ar eu perthynas yn hytrach na phlant. Fodd bynnag, os na all cwpl gael plant gall hyn roi straen mawr ar yr unigolion a'r berthynas.
- Teulu estynedig yw'r grŵp teulu ehangach, ac eithrio'r prif ofalwyr a'u plant. Gall gynnwys modrybedd, ewythr, cefndryd, neiniau a theidiau, brodyr a chwiorydd. Gall bod yn rhan o deulu estynedig cefnogol a gofalgar gael effaith gadarnhaol ar ddatblygiad plentyn. Bydd nifer o bobl i rannu'r rôl ofalu, a bydd gan y plentyn amrywiaeth o fodelau rôl i edrych i fyny atynt. Fodd bynnag, gall teulu estynedig hefyd gael effaith andwyol ar blentyn os oes tensiynau neu faterion rhwng aelodau'r teulu.

English

Slide relates to AC 2.6: Why development may not follow the expected pattern

Reference: http://resource.download.wjec.co.uk.s3.amazonaws.com/vtc/2018-19/HSC18-19_1-2/_multi-lang/factors-affecting-growth-development-and-well-being/2-social-and-emotional-factors.html

(Health & Care Learning Wales).

Also,:

- Stepfamilies – This type of family is becoming increasingly common. It can bring positive and negative outcomes. Children may enjoy being part of a larger family, having more children to play with and seeing their parent happy. However, they may come with unresolved issues and resent the new family set-up, leading to behavioural issues. Parents may feel a sense of relief that they have an individual to share the day to day responsibilities with, however they may suffer from stress and anxiety when trying to parent children that are not their own.
- Childless family – this may be a lifestyle choice and can bring a great sense of well-being, as the adults choose to spend their time and money focusing on their relationship rather than children. However, if a couple are unable to have children this can place a great strain on the individuals and the relationship.
- An extended family is the wider family group, other than the main caregivers and their children. It can include aunts, uncles, cousins, grandparents, brothers and sisters. Being part of a supportive and caring extended family can have a positive impact on a child's development. There will be several people to share the caring role, and the child will have a variety of role models to look up to. However, an extended family can also have an adverse effect on a child if there are tensions or issues between family members.

Ansawdd aer

- Mae llygredd aer yn achosi tua saith miliwn o farwolaethau'r flwyddyn ledled y byd. Mae twf y boblogaeth mewn dinasoedd, yn ogystal â'r cynnydd yn y defnydd o geir, yn arwain at yr allyriadau sy'n niweidiol i'n hiechyd.
- Mae ein hiechyd a'n llesiant yn cael eu heffeithio'n wahanol gan y math o llygredd aer yr ydym yn agored iddo.
- Gall llygredd aer achosi:
 - clefydau anadlol
 - clefyd cardiofasgwlaidd
 - blinder, cur pen a phryder
 - llid y llygaid, y trwyn a'r gwddf
 - niwed i organau atgenhedlu
 - niwed i'r afu, y ddueg a'r gwaed
 - difrod i'r system nerfol

Air quality

- Air pollution causes around seven million deaths a year worldwide. Growth of the population in cities, as well as the rise in car usage result in the emissions that are harmful to our health.
- Our health and well-being is affected differently by the kind of air pollution we are exposed to.
- Air pollution can cause:
 - respiratory diseases
